



## Ysgol Gyfun Penweddig

### **Datganiad Grant Amddifadedd Ysgol Penweddig 2016-2017**

Dyrennir y Grant Amddifadedd Disgyblion i ysgolion â disgyblion sy'n dod o deuluoedd incwm isel ac y gwyddys eu bod ar hyn o bryd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim (PYDd) a disgyblion sydd wedi derbyn gofal yn barhaus am fwy na chwe mis (PMG).

Disgwylir i ysgolion ddefnyddio'r cyllid hwn i'r eithaf i gyflwyno strategaethau cynaliadwy fydd yn arwain yn gyflym at newidiadau i ddysgwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim neu sy'n LAC.

Fel ysgol rydym wedi cytuno ar y tri cham a ganlyn:

1. nodi'r grŵp targed o ddisgyblion, ei nodweddion a'i anghenion
2. cynllunio ymyraethau sy'n gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau
3. monitro a gwerthuso effaith adnoddau

Yn 2016-17 rhoddwyd i Ysgol Penweddig ddyraniad Grant Amddifadedd disgyblion o £28750.

Yn yr ysgol mae gennym gynllun cynhwysfawr, sydd wedi'i gytuno a'i fonitro gan Awdurdod Lleol Ceredigion ac ERW, i hyrwyddo cynnydd a chael gwared ar rwystrau i ddysgu i fyfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer y cyllid hwn.

Rydym wedi defnyddio'r cyllid sydd ar gael i wneud y canlynol:

- Mabwysiadu system asesu dwyieithog i adnabod nodweddion dysgu ein disgyblion a'u hanghenion dysgu.
- Darparu canllawiau i bob aelod o staff, yn amlinellu pa ddarpariaeth mae pob grŵp yn ei hawlio, er mwyn i bawb fod yn ymwybodol o anghenion a haeddiant disgyblion y grŵp targed.
- Darparu rhaglenni ymyrraeth er mwyn gwella sgiliau llythrennedd a rhifedd ein dysgwyr.
- Defnyddio Arweinyddion Cynnydd i fonitro a thracio y dysgwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd eu potensial.
- Darparu mentoriaid cyfoed lle bo angen.
- Cynnal clwb gwaith cartref bob prynhawn rhwng 3-30 a 4-30 pm ac yn ystod yr awr ginio.
- Cynnal sesiynau Dysgu, gwaith cartref, llythrennedd a rhifedd (ynghyd â grwpiau eraill yn ôl y gofyn) ar ôl ysgol gyda thrafnidiaeth i bob disgybl – yn cael ei drefnu,
- Defnyddio Swyddogion yr Hafan i gysylltu â rhieni'r grŵp targed er mwyn sicrhau presenoldeb yn ein nosweithiau rheini.
- Gwella presenoldeb y grŵp targed drwy ddefnyddio swyddogion presenoldeb yr ysgol.
- Cynllunio darpariaeth addas i gyd-fynd gyda'r cynllun Defnydd o Iaith Gymdeithasol (SULP) er mwyn delio ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol y disgyblion.
- Darparu cefnogaeth ariannol i rieni ar gyfer tripiâu addysgiadol a chymdeithasol.
- Darparu cefnogaeth ariannol i rieni ar gyfer gwersi offerynnol peripatetig.

Mae ein cynllun manwl sy'n cynnwys manylion mewn perthynas â sut rydym yn gwario'r grant ar gael drwy swyddfa yr Ysgol.